



**Cofnod Cyfarfod Bwrdd S4C**  
**24 Ionawr, 2019, Canolfan S4C Yr Egin, Caerfyrddin**

**Cyfarfod Rhif 423**

**Presennol:**  
**Aelodau Anweithredol y**  
**Bwrdd:**

Huw Jones	(Cadeirydd)
Siân Lewis	(Aelod o'r Bwrdd)
Anita George	(Aelod o'r Bwrdd)
Owen Derbyshire	(Aelod o'r Bwrdd)
Rhodri Williams	(Aelod o'r Bwrdd)

**Aelodau Gweithredol**  
**y Bwrdd Unedol Cysgodol:**

Owen Evans	(Prif Weithredwr)
Elin Morris	(Prif Swyddog Gweithredu)
Amanda Rees	(Cyfarwyddwr Cynnwys Creadigol)

**Staff S4C:**

Gwyn Williams	(Cyfarwyddwr Cyfathrebu)
Phil Williams	(Ysgrifennydd y Bwrdd)
Bethan C. Williams	(Cynorthwy-ydd Ysgrifennydd y Bwrdd)
Huw Jones	(Uwch Swyddog Ystadegol) – eitem 7
Carys Evans	(Pennaeth Data a Dadansoddi) – eitem 7
Sharon Winogorski	(Prif Swyddog Cyllid) eitem 10
Rhidian Dafydd	(Cyfarwyddwr Prosiectau) eitem 6
Hugh Hesketh	(Aelod o'r Bwrdd)
Evans	

**Ymddiheuriadau:**

**COFNODION**

**MATERION SEFYDLOG:**

1. **Croeso a Datganiadau Diddordeb**  
Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

Nododd fod Aelodau Anweithredol y Bwrdd wedi cymeradwyo drwy gyfrwng e-bost argymhelliad a gyflwynwyd gan y Pwyllgor Archwilio a Materion Eraill yn unol â Rheol 12 y Rheolau Sefydlog yn dilyn derbyn argymhelliad gan y Prif Weithredwr, i benodi Elin Morris ac Amanda Rees yn Aelodau Gweithredol y Bwrdd Unedol Cysgodol yn unol ag amodau'r argymhelliad isod:

*"Cyflwynir isod argymhelliad gan y Pwyllgor Archwilio a Materion Eraill yn dilyn ei gyfarfod diwethaf.*

*O dan eitem 4.1 ar agenda'r cyfarfod, cyflwynodd y Prif Weithredwr argymhelliad o ran penodi aelodau gweithredol i'r Bwrdd Unedol Cysgodol.*

*Cyflwynodd argymhelliad i benodi'r 'Cyfarwyddwyr Cynnwys Creadigol' a'r 'Prif Swyddog Gweithgareddol' yn gyfarwyddwyr gweithredol ar y Bwrdd Unedol Cysgodol, sef Amanda Rees ac Elin Morris.*

*[Atodir yr argymhelliad i'r e-bost hwn fel atodlen i'r cofnodion er gwybodaeth.]*

*Cyflwynwyd yr argymhelliad yn unol â Rheol Sefydlog 12 y Rheolau Sefydlog diwygiedig, sy'n caniatáu penodi hyd at ddau aelod gweithredol i'r Bwrdd Unedol Cysgodol (yn ogystal â'r Prif Weithredwr).*

*Trafododd y Pwyllgor yr argymhelliad, a phenderfynwyd argymhell i'r Bwrdd gymeradwyo'r penodiadau, gan ofyn i'r Bwrdd gadarnhau fod y penodiadau yn para am*

*gyfnod cyflogaeth yr unigolion gydag S4C yn eu swyddi presennol, ac na fyddai unrhyw newidiadau i delerau ac amodau eu cyflogaeth gydag S4C yn sgil y penodiad.*

*Yn unol â gofynion Rheol 12.2, argymhellir i'r Bwrdd i gymeradwyo'r penodiadau ar yr amodau uchod."*

Gan nodi eu bod wedi derbyn y penodiad a'r telerau a nodwyd, croesawodd y Cadeirydd EM ac AR i'w cyfarfod cyntaf o'r Bwrdd yn dilyn eu penodiad yn gyfarwyddwyr gweithredol y Bwrdd Unedol Cysgodol.

Gofynnwyd i unrhyw aelod oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod iddynt ddatgan eu diddordeb.

*Gweler y Gofrestr Diddordebau yn adran y Bwrdd ar wefan S4C ar gyfer datganiadau cyffredinol.*

Mewn perthynas â gweithgareddau'r Bwrdd Masnachol a gwerthiant Ystâd Parc Tŷ Glas i'r Grŵp Masnachol, nododd AG, OD, OE, ac EM ddi-ddordeb yn y drafodaeth yn rhinwedd eu swyddi fel cyfarwyddwyr y cwmnïau masnachol.

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau eraill.

## 2 **Cofnodion Cyfarfod Bwrdd rhif 422 a gynhaliwyd ar 15fed o Dachwedd 2018 a Phenderfyniadau ac Arweiniad Diwrnod i Ffwrdd a gynhaliwyd ar 13eg o Ragfyr, 2018.**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 422 y Bwrdd a gynhaliwyd ar Dachwedd 15fed a Phenderfyniadau ac Arweiniad y Diwrnod i Ffwrdd a gynhaliwyd ar 13eg o Ragfyr, 2018.

Cymeradwywyd y cofnodion.

## 3. **Materion yn codi o gofnodion Cyfarfod 422**

### **5.6 – Protocol Buddsoddiadau – ffiniau clir rhwng buddiannau'r cronfeydd cyhoeddus a masnachol.**

Nodwyd y byddai AG ac EM yn trafod opsiynau a chyflwyno argymhelliad o ran protocol i gyfarfod y Bwrdd ym mis Chwefror.

### **Archifo a'r Llyfrgell Genedlaethol**

Nododd y PW fod trafodaethau'n parhau parthed cydweithio ar brosiect archif gyda'r Llyfrgell Genedlaethol ond nad oedd unrhyw ddiweddariad pellach.

### **Ffurfioli'r trefniant gydag Ofcom.**

Nododd PW fod cyfarfod ffôn bellach wedi ei gynnal gyda swyddogion Ofcom yng Nghaerdydd a Llundain. Ymddengys nad oedd Ofcom yn Llundain yn awyddus i arwyddo MoU gydag S4C, gan fod y darpariaethau statudol eisoes yn bodoli. Esboniwyd iddynt y dryswch sy'n bodoli gan fod trefniadau rheoleiddio S4C wedi eu cynnwys mewn statud yn hytrach na thrwydded gwasanaeth gan Ofcom, fel ar gyfer pob darlledwr cyhoeddus arall, gan gynnwys y BBC erbyn hyn.

Yn dilyn y drafodaeth ffôn, cytunwyd y byddai Ofcom yn addasu'r MOU drafft a'i gyflwyno ar ffurf llythyr ar y cyd ar gyfer trafodaeth gydag S4C.

Mae swyddogion yn disgwyl derbyn fersiwn ddiwygiedig o'r ddogfen drafft a ddanfonwyd i Ofcom.

**Trefniadau archwilio gyda'r NAO.**

Nodwyd fod DCMS wedi cytuno i drefnu cyfarfod rhwng DCMS, swyddogion yr NAO ac S4C er mwyn galluogi S4C i drafod yn uniongyrchol gyda'r NAO. Cynhelir cyfarfod cychwynnol cyn diwedd y mis. Cyflwynir diweddariad i'r Bwrdd ym mis Chwefror.

**Nosweithiau Gwylwyr**

Cafwyd trafodaeth am opsiynau ar gyfer nosweithiau gwylwyr y dyfodol a phenderfynwyd ystyried opsiynau ar gyfer cynnal nosweithiau gwylwyr yn yr Hydref, gan roi cyfle i'r Cadeirydd newydd gynnig mewnbwn.

**Eitem 7.1.1 - Cronfa cyd-gynhyrchu Llywodraeth Cymru**

Roedd OE wedi cynnal trafodaethau cychwynnol gyda'r gweinidog mewn perthynas â chronfa gyd-gynhyrchu Llywodraeth Cymru. Mae'r Llywodraeth yn datblygu strategaeth ryngwladol newydd, a gobeithir y bydd modd cydweithio yn y dyfodol.

**Eitemau 7.1.5 a 7.1.6 – Ymestyn rhediadau cyfresi poblogaidd**, Roedd AR yn gobeithio y byddai modd ymestyn rhediadau nifer o gyfresi penodol.

**Cofnod Penderfyniadau ac Arweiniad Strategol y Diwrnod i Ffwrdd**

Cymeradwywyd Cofnod Penderfyniadau ac Arweiniad Strategol y Diwrnod i Ffwrdd.

**4. Pwyntiau Gweithredu**

Cyflwynwyd y Pwyntiau Gweithredu er gwybodaeth, a chyfeiriwyd yn benodol at y pwyntiau canlynol.

**Arolwg Staff**

Roedd OE wedi trafod canlyniadau'r Arolwg gyda'r staff yn ystod y diwrnod i ffwrdd a gynhaliwyd yn yr Egin, ac wedi gofyn i'r staff gynnig syniadau ar gyfer gwella nifer o faterion a adnabuwyd gan yr arolwg. Mae Cynllun Cyfathrebu Mewnol newydd hefyd wedi ei rannu gyda'r staff.

**5. Adroddiad y Cadeirydd**

Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad, a chyfeiriodd yn benodol at y materion canlynol.

**Cadeiryddiaeth ac Aelodaeth y Bwrdd**

Nododd y Cadeirydd nad oedd yn debygol y byddai DCMS yn hysbysebu am aelodau anweithredol newydd am y tro, er gwaethaf penderfyniad blaenorol yr adran. Roedd yr amserlen ar gyfer hysbysebu am Gadeirydd newydd, eisoes wedi llithro, ac yn hwyrach na phan hysbysebwyd am gadeirydd yn 2010/11. Roedd ffactorau eraill yn peri pryder y tro hwn, megis Brexit, a'r ffaith fod mwy o adrannau'r Llywodraeth yn ymwneud gyda'r broses, a all arwain at oedi. Roedd S4C wedi cynnig swydd ddisgrifiad a dogfennaeth gysylltiedig ddiwygiedig i DCMS ym mis Hydref.

Bydd y Cadeirydd yn cyfarfod Gweinidog o adran DCMS yn fuan i drafod nifer o faterion, gan gynnwys amserlen penodi Cadeirydd newydd.

Penderfynwyd nodi fod amserlen penodi Cadeirydd newydd ar hyn o bryd yn risg i S4C, ac y byddai OE yn danfon llythyr i Ysgrifennydd Parhaol DCMS yn nodi pryder y Bwrdd.

### **Pwyllgor Dethol Materion Cymreig San Steffan**

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y sesiwn dystiolaeth gerbron y Pwyllgor Dethol, a nodwyd fod Cadeirydd y Pwyllgor a'r Aelodau wedi holi cwestiynau am nifer o bynciau gan gynnwys gweithredu argymhellion Adolygiad Euryngwen a chwestiynau penodol am nifer o fuddsoddiadau masnachol S4C.

Nododd fod y Pwyllgor wedi camddehongli nifer o faterion ariannol penodol yn ymwneud gyda chyfrifon rhai cwmnïau penodol. Yn dilyn y sesiwn, danfonwyd llythyr yn nodi'r camddehongliad.

Penderfynwyd darparu copi o'r llythyr a ddanfonwyd i'r Pwyllgor i'r Aelodau.

### **Derbyniad Nadolig S4C yn Llundain**

Cafwyd trafodaeth am y derbyniad a gynhaliwyd yn San Steffan ym mis Rhagfyr, a nodwyd fod ystod o randdeiliaid wedi mynychu'r digwyddiad. Penderfynwyd ystyried amseriad a lleoliad derbyniad ar gyfer Nadolig 2019.

### **Ymgynghoriad y BBC ar opsiynau ar gyfer Ffi'r Drwydded i bobl dros 75 oed**

Cyfeiriwyd at ymgynghoriad y BBC ar y consesiwn presennol ar gyfer trwyddedau teledu i bobl dros 75 oed, a nodwyd fod Cadeirydd y BBC yn awyddus i S4C ymateb i'r ymgynghoriad.

Cafwyd trafodaeth am yr ymgynghoriad, a sensitifrwyd y pwnc, gan nodi nad oedd S4C fel rheol yn mynegi barn ar faterion polisi cyhoeddus, ac nad oedd S4C ychwaith am gael ei gweld yn cysylltu lefel ariannu cyhoeddus S4C gyda lefel incwm Ffi'r Drwydded. Roedd yn bwysig i sicrhau fod dyletswydd yr Ysgrifennydd Gwladol parthed 'ariannu digonol' S4C ddim yn cael ei ddrysu gyda lefel Ffi'r Drwydded.

Penderfynwyd y dylid cylchredeg ymateb drafft i'r Aelodau ar gyfer eu hystyriaeth.

### **6. Adroddiad y Prif Weithredwr**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei adroddiad, a chyfeiriodd yn benodol at y materion canlynol.

#### **Statws TAW S4C**

Cyflwynwyd diweddariad parthed trafodaethau am statws TAW S4C.

#### **Ffigyrau gwylio Clic a chynlluniau llwyfannau digidol**

Nododd OE fod elfen o ddata sesiynau gwylio Clic ar gyfer rhan o gyfnod y Nadolig wedi ei golli wrth symud Clic i weinydd diogel *https*, ac felly bod hyn yn effeithio ar y ffigyrau gwylio oedd ar gael. Roedd swyddogion yn ystyried sut i ymateb i hyn o ran asesu perfformiad y cyfnod, ac o ran dysgu gwersi ar gyfer prosiectau cyffelyb yn y dyfodol.

Penderfynwyd y byddai Ruth Meadows yn cyflwyno diweddariad i'r Bwrdd parthed cynlluniau llwyfan Clic, gan gynnwys y prosiect Cofrestru Gorfodol yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Chwefror.

#### **Gwersi a ddysgwyd o'r Prosiect Adleoli**

Cyflwynodd OE adroddiad yn nodi'r gwersi a ddysgwyd o'r Prosiect Adleoli.

Nododd y Bwrdd fod yr adroddiad yn gynhwysfawr a chytbwys, a oedd yn nodi rhinweddau'r prosiect a materion lle roedd angen dysgu gwersi ar gyfer y

dyfodol.

Penderfynwyd monitro cyflawniad amcanion hir dymor y prosiect yn flynyddol, gan ymgorffori asesiad o ganlyniadau'r Holiadur Staff blynyddol fel rhan o'r broses.

### **Ystâd S4C ym Mharc Tŷ Glas**

Cyflwynodd EM ddiweddariad ar sefyllfa ystâd S4C ym Mharc Tŷ Glas.

Cafwyd pleidlais ar yr argymhelliad a gyflwynwyd i gymeradwyo gwerthiant Ystâd Parc Tŷ Glas i'r Grŵp Masnachol, ac fel unig gyfranddaliwr y Grŵp Masnachol, i gymeradwyo'r pryniant yn ogystal. Pleidleisiodd yr Aelodau Anweithredol a'r Aelodau Gweithredol yn unfrydol o blaid yr argymhelliad.

### **7. Perfformiad y Gwasanaeth dros y Mis Diwethaf ac Adroddiad Chwarterol**

Cynigiodd y Cadeirydd bod y pynciau Adroddiad Chwarterol/Perfformiad y Gwasanaeth dros y mis diwethaf/Trafodaeth am raglenni'r mis aeth heibio/Gwifren y Gwylwyr yn cael eu cyfuno yn un drafodaeth am berfformiad cyfredol y gwasanaeth.

Cyflwynwyd crynodeb un dudalen gan yr Adran Ddadansoddi o berfformiad y gwasanaeth dros y mis a aeth heibio.

Cytunwyd fod y fformat yma yn cyflawni'r pwrpas oedd gan y Bwrdd dan sylw. Trafodwyd perfformiad y cyfnod diweddar, yng nghyd destun y flwyddyn ar ei hyd a blynyddoedd cynt. Sylwyd hefyd ar dueddiadau darlledwyr cyhoeddus eraill. Cymeradwywyd y camau a gymerwyd i gryfhau'r apêl i gynulleidfa eang o fis Ionawr ymlaen.

### ***Cymeradwywyd fformat yr adroddiad misol cryno a gyflwynwyd i'r cyfarfod.***

Aed ymlaen i drafod y gwasanaeth fesul genre.

### **8. Adroddiad Gwifren Gwylwyr a Chwynion a Chydymffurfiaeth**

Cyflwynwyd Adroddiad Gwifren Gwylwyr a'r Adroddiad Cwynion a Chydymffurfiaeth er gwybodaeth..

### **9. Adroddiadau Cyfathrebu Ch1 a Ch2 2018/19**

Cyflwynodd GW Adroddiadau Cyfathrebu Ch2 a Ch3 2018/19 a nododd fod bwriad i addasu strwythur a chynnwys yr adroddiadau chwarterol er mwyn cyflwyno'n gliriach effaith y gweithgareddau hyrwyddo penodol ar berfformiad y gwasanaeth, a cheisio olrhain effaith hir-dymor y gweithgareddau lle'n bosibl.

Penderfynwyd y byddai GW yn ystyried fformat yr Adroddiad Cyfathrebu Chwarterol, gan geisio llunio fformat fwy cryno a chynnig rhagor o ddadansoddiad o effaith y gweithgareddau ar berfformiad y gwasanaeth a chyflawniad amcanion strategol.

Nodwyd fod yr adran wedi delio gyda newidiadau staffio sylweddol dros y chwe mis diwethaf o ganlyniad i Adleoli, gyda 7 aelod o staff wedi gadael, 10 aelod newydd wedi'u penodi a 2 ar gyfnod mamolaeth. Roedd y tim newydd yn dysgu'n gyflym, a gobeithio y bydd y tim yn sefydlogi'n fuan.

Cyfeiriwyd at nifer o uchafbwyntiau Chwarter 2, gan gynnwys lansiad darpariaeth y Pro14 a Junior Eurovision. Roedd yr ymgyrch hyrwyddo ar gyfer y

Pro14 wedi cael blaenoriaeth a buddsoddiad tebyg i'r hyn a roddir i gyfresi drama proffil uchel, ac roedd hynny i'w weld wedi llwyddo i greu sylw ac ymwybyddiaeth i ddarpariaeth S4C.

10. **Adroddiad Ariannol Ch2 2018/19**

Cyflwynodd ShW Adroddiad Ariannol Ch2 2018/19, a chyfeiriwyd at gostau'r gyllideb cynnwys ar gyfer y chwarter a'r rhagamcan ar gyfer y flwyddyn.

**Diweddariad y Cynllun Cydleoli - Trosglwyddo staff i'r BBC o dan ddarpariaethau Rheoliadau TUPE a Chytundeb y TSA.**

Cyflwynwyd diweddariad ar y Cynllun Cydleoli, ac yn benodol ar drefniadau TUPE ar gyfer staff fydd yn trosglwyddo i gyflogaeth y BBC o dan ddarpariaethau cytundeb y TSA.

Bydd 34 aelod o staff yn trosglwyddo i gyflogaeth y BBC ar y 25ain o Chwefror. Ar y diwrnod hwnnw, bydd rheolwyr y BBC yn Llanisien i'w croesawu. Bydd rheolwyr S4C hefyd yn bresennol, a bwriedir sicrhau fod gwerthfawrogiad S4C o'u cyfraniad yn cael ei nodi'n glir., Nodwyd y bydd angen parhau i sicrhau fod yr aelodau hyn yn teimlo'n rhan bwysig o weithgaredd S4C er y bydd eu cyflogwr wedi newid.

Nodwyd fod cais wedi ei wneud i'r BBC i ddarparu diweddariadau mwy manwl o ran cynnydd prosiect Sgwâr Canolog, yn unol â'r hyn sydd wedi ei gytuno yng nghytundeb y TSA. Cyflwynir y diweddariadau hyn i'r Bwrdd yn unol â phenderfyniad y Bwrdd (ym mis Mawrth 2018) parthed adrodd ar y prosiectau Adleoli a Chydleoli.

12. **Adroddiadau cyfarfodydd y Pwyllgorau Cynnwys, Archwilio a Materion Cyffredinol a gynhaliwyd ar y 12fed o Ragfyr, 2018 a Chofnodion y Bwrdd Masnachol gynhaliwyd ar y 7fed o Dachwedd, 2018.**

Cyflwynwyd cofnodion drafft cyfarfodydd y Pwyllgor Cynnwys (12.12.18), Pwyllgor Archwilio a Materion Cyffredinol (12.12.18) a'r Bwrdd Masnachol (7.11.18) er gwybodaeth i'r Bwrdd.

13. **Rhaglen Waith**

Cyflwynwyd Rhaglen Waith y Bwrdd ar gyfer 2019-20 er gwybodaeth.

14. **Unrhyw Fater Arall**

Ni thrafodwyd unrhyw faterion eraill.

## **Atodlen 1**

### **Argymhelliad y Prif Weithredwr i'r Pwyllgor Archwilio a Materion Cyffredinol parthed penodi Aelodau Gweithredol i'r Bwrdd Unedol Cysgodol.**

*Crybwyll Aelodau Gweithredol Bwrdd Unedol S4C.*

*Fel rhan o strwythur newydd y Bwrdd Unedol mae'r Prif Weithredwr wedi ei gynnwys fel aelod o dan y rheolau sefydlog. Mae gan y Panel Archwilio yr hawl i benodi ddau aelod gweithredol i'r Bwrdd. Rwy'n credu ddylau'r penodiadau yma gynnig:*

- *Arbenigeth yn y meysydd hanfodol i llwyddiant a llywodraethiant S4C i sicrhau fod gweithgareddau S4C yn gallu cael eu trafod ar lefel broffesiynol*
- *Profiad ar lefel i allu sicrhau trafodaeth ar lefel strategol*
- *Profiad ar lefel i alluogi trafodaeth ar lefel corfforaethol*
- *Profiad ar lefel i ddeall y pynciau llosg ac sydd a'r gallu i grybwyll manylder ble mae angen*

*Wrth ystyried y rhesymeg uchod fe hoffwn gynnig y canlynol i fod yn aelodau'r bwrdd:*

1. *Cyfarwyddwr Cynnwys Creadigol (CCC)*

*Gan mai canolbwynt gweithgareddau S4C yw'r cynnwys ac am y blynyddoedd i ddod, y brif siannel, hoffwn awgrymu y CCC i fod yn aelod. Mae'r swyddogaeth yma dros yr holl ddyletswyddau sydd yn gwario rhan helaeth o wariant S4C (Hyd at £67m yn 2018/19). Mae perfformiad y maes yma wrth gwrs wrth wraidd llwyddiant neu fethiant S4C.*

2. *Prif Swyddog Gweithgareddol (PSG)*

*Mae'r swyddogaeth yma yn ymestyn dros holl gwaith gweithredol S4C sy'n cynnwys Cyllid, Adnoddau Dynol, Cyfreithiol, Masnachol, Technoleg a Swyddfeydd S4C. Mae'r swyddogaeth yma yn rhoi dealltwriaeth eang o weithgareddau a llywodraethiant y sefydlaid ac yn gallu ymateb ar lefel strategol i ofynion sylfaenol gweithgareddau S4C i gynorthwyo llwyddiant y cynnwys ar pa bynnag blatfom.*

*Yn ogystal, awgrymaf fod y Cyfarwyddwr Cyfathrebu yn mynychu'r cyfarfodydd ond fel ex-officio yn hytrach na aelod llawn. Byddai hyn yn sicrhau cyswllt gyda'r cynlluniau cyfathrebu ac ymatebion S4C i newyddion mewn ffordd amserol.*